TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# EAL Diploma NVQ mewn Technegau Gwella Busnes Lefel 3



**Yn gryno**

Datblygwyd y cymhwyster hwn i alluogi dysgwyr i ddangos cymhwysedd yn eu galwedigaeth gwella busnes mewn modd darbodus a hynny fel arfer yn y maes peirianneg neu weithgynhyrchu.

Mae'r cymhwyster yn berthnasol i amrywiaeth eang o alwedigaethau o fewn ystod o sectorau, yn dibynnu ar y llwybr a ddewiswyd.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

Unrhywunsy'ngyfrifolamgyfrannuatwellaansawddaphrosesuynygweithle.Yrhaisy'ncaeleucyflogifelgoruchwylwyr,arweinwyrtîmneuhwyluswyracsy'ngyfrifolamgynnalgweithgareddaugwellabusnes.

**Cynnwys y cwrs**

Mae hwn yn Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ). Mae'n cynnwys y sgiliau a'r

wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau gwella busnes, gan gynnwys y gallu i drefnu gwaith a nodi ac atal problemau.

Rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth (wedi'i chofnodi mewn portffolio) sy'n dangos yn glir eu bod wedi bodloni meini prawf asesu a deilliannau dysgu'r unedau a ddewiswyd.

Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r unedau gorfodol a dewisol sy'n berthnasol i'w llwybr a'i rôl alwedigaethol.

Mae Lefel 3 yn ddelfrydol os ydych wedi bod yn gweithio mewn amgylchedd gwella busnes mewn modd darbodus ers peth amser a bod gennych lawer iawn o sgiliau technegol ynghyd â dealltwriaeth gadarn o gysyniadau a damcaniaethau darbodus. Rydych chi'n gweithio gyda'r mymryn lleiaf o oruchwyliaeth neu efallai y byddwch yn goruchwylio eraill.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, fodd bynnag, bydd y cymhwyster yn cael ei farnu'n rhannol ar asesiadau a arsylwyd yn y gweithle felly mae'n rhaid i ddysgwyr weithio mewn amgylchedd a rôl gwella busnes.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gyda chi a'ch cyflogwr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys 8 neu 9 uned. Gall gymryd rhwng 8 a 14 mis i'w gwblhau. Gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain ond bydd ein tîm o aseswyr yn rhoi cynllun cychwynnol ar waith i gwblhau uned bob mis ac mae'n bosib ei chwblhau'n gynt.